TAITH PYLLAU GLO CYMRU
PARC TREFTADAETH CWM RHONDDA
A WELSH COAL MINING EXPERIENCE
RHONDDA HERITAGE PARK

# GWRTHRYCHAU OES Y TUDURIAID
# TUDOR ARTEFACTS





## Canwyllbrenni

Beth bynnag oedd eu statws ariannol, roedd teuluoedd Tuduraidd yn goleuo'u tai â chanhwyllau. Byddai teuluoedd tlotach yn defnyddio canhwyllau wedi'u creu o wêr (braster anifeiliaid) a byddai'r canhwyllau yma'n cael eu cadw mewn canwyllbrenni wedi'u creu o haearn neu bren. Roedd modd i deuluoedd mwy cyfoethog fforddio canhwyllau wedi'u creu o ŵyr gwenyn a chanwyllbrenni piwter.

Roedd canhwyllau, fel y mae ynni heddiw, yn ddrud ac roedd y bobl yn awyddus i beidio â'u gwastraffu, felly cafodd 'diffoddwyr' eu defnyddio i ddiffodd y fflamau.

## Candlesticks

Regardless of wealth, Tudor families lit their homes with candles. Poorer families would use candles made from tallow (animal fat), which would be held in candlesticks made from iron or wood. Wealthier families could afford candles made from beeswax and pewter candlesticks.

Candles, like energy today, was expensive and was not to be wasted, so 'snuffers' were used to extinguish flames.



## Lamp Olew

Cafodd lampau olew eu defnyddio i oleuo'r cartref. Byddai lampau yn cael eu llenwi ag olew. Byddai wic cotwm yn cael ei osod yn y pig ac yna'n amsugno'r olew. Pan gafodd un pen y wic ei oleuo byddai'n tynnu'r olew allan o'r gronfa'n barhaus. Mae gan yr enghraifft sydd yn y bocs ddolen a oedd wedi galluogi'r teuluoedd i'w chario o gwmpas y tŷ.

## Oil Lamp

Oil lamps were used to light the home. Lamps would be filled with oil. A cotton wick would be placed down the spout, which would soak up the oil. When the wick was lit at one end it would continuously draw oil out of the reservoir. The example in the box has a handle which made it possible to carry around the house.



## Trensiwr - Plât Pren

Roedd teuluoedd mwy tlawd fel arfer yn bwyta o blatiau pren o'r enw trensiwr. Roedd y trensiwyr wedi'u creu o bren masarnwydden. Dyma fath o bren sydd ddim yn gadael blas ac felly ddim yn sbwylio blas y bwyd.

Roedd dietau gwael yn cynnwys bwydydd syml fel stiwiau. Mae'r pantiad bach yng nghornel y plât ar gyfer halen.

## Wooden Trencher

Poorer families typically ate from wooden plates called trenchers. They were made out of sycamore, a wood that left no taste so that it did not spoil the flavour of the food.

Poorer diets consisted of simple foods like stews. The small indentation on the plate in the corner is for salt.




## Plât a Ffiol

Byddai teuluoedd mwy cyfoethog yn dangos eu cyfoeth â phlatiau a ffiolau piwter. Mae piwter yn gymysgedd o blwm a thun. Mae ganddo liw arian ond mae'n fwy gwydn ar gyfer defnydd ymarferol. Mae'r math yma o blât yn nodweddiadol ar gyfer deiet y Tuduriaid, sy'n cynnwys llawer o gig, stiwiau a phasteiod.

## Plate and Goblet

Wealthier families would display their wealth with pewter plates and goblets. Pewter is an alloy of lead and tin. It is silver in appearance, but more durable for practical use. The form of the plate is typical for the Tudor diet, which included lots of meat, stews and pies.

TAITH PYLLAU GLO CYMRU
PARC TREFTADAETH CWM RHONDDA
A WELSH COAL MINING EXPERIENCE
RHONDDA HERITAGE PARK

# GWRTHRYCHAU OES Y TUDURIAID
# TUDOR ARTEFACTS



## Pot Inc

Cafodd pot inc ei greu gan ddefnyddio clai a'i ddefnyddio gan ysgrifenwyr i storio inc. Cafodd yr inc ei ddefnyddio trwy drochi'r cwilsyn yn y pot ac yna ysgrifennu ar femrwn. Dyma sut roedd y dramodydd a'r bardd enwog, William Shakespeare, wedi ysgrifennu'i sonedau a'i ddramâu.

## Ink Well

An ink well was made from clay and was used by writers to store ink. The ink was used by dipping a quill into the well and then writing on a piece of parchment. This is how the famous playwright and poet William Shakespeare wrote his sonnets and plays.



## Cwd Lledr a 5 Carreg Bren

Roedd 'Tudor Five Stones' yn gêm boblogaidd a gafodd ei chwarae gan nifer o blant. Mae fersiynau gwahanol o'r gêm yn dal i gael eu chwarae heddiw.

I chwarae: tafla 5 carreg i'r awyr a cheisio dal cynifer ag sy'n bosibl ar gefn yr un llaw roeddet ti wedi'i defnyddio i'w taflu. Bydd pwy bynnag sy'n dal y mwyaf o gerrig yn ennill.

## Leather Pouch and 5 Wooden Stones

Tudor Five Stones was a popular game played by many children. Variations of the game are still played now.

To play: throw all 5 stones into the air and try to catch as many as you can on the back of the same hand you threw them with. Whoever catches the most wins.



## Llyfr Corn

Yn ystod cyfnod y Tuduriaid, roedd llyfrau ysgol yn adnodd prin. Byddai disgyblion yn dysgu sut i ddarllen gan ddefnyddio Llyfr Corn.

Darn o bren â thaflen o femrwn y tu mewn iddo yw Llyfr Corn. Yn aml, byddai Gweddi'r Arglwydd a'r wyddor wedi'u hysgrifennu arni. Byddai haen glir o gorn gwartheg yn cael ei gosod ar y memrwn i ddiogelu'r ysgrifen. Dyma darddiad yr enw.

## Horn Book

During the Tudor period, school books were scarce resources. Instead, pupils would learn to read from a Horn Book.

A Horn Book is a wooden paddle with a sheet of parchment inside, which often had the lords prayer and the alphabet written on. A clear layer of cow horn was placed over the parchment to seal the writing. This gives the object its name.



## Cwpan a Phêl

Enw'r Gwpan a Phêl oedd 'Bilboquet' (bil.bo.ke) a chafodd y tegan ei greu yn Ffrainc yn wreiddiol. Yn ystod teyrnasiad Elizabeth I roedd y tegan yn boblogaidd ym Mhrydain ac roedd wedi dwyn yr enw 'Cwpan a Phêl'. Roedd y tegan yn ddigon rhad i'w greu oherwydd ei fod wedi cael ei greu o bren. Roedd hyn yn golygu bod modd i'r plant mwyaf tlawd berchen ar un.

## Cup and Ball

The Cup and Ball was called 'Bilboquet' (bil.bo.ke) and originated in France. During the reign of Elizabeth I it became a popular toy in Britain and was called the Cup and Ball. The toy was cheap to make because it was made from wood. This meant even the poorest of children could own one.



## Babi Pren

Roedd y Babi Pren yn degan nodweddiadol o Oes y Tuduriaid ar gyfer merched. Roedd nifer o deuluoedd yn rhy dlawd i allu fforddio'r teganau drud; roedd hi'n ddigon hawdd creu'r babi pren â llaw.

Byddai nifer o ferched yn creu dillad ar gyfer eu babis gan ddefnyddio darnau o glytiau. Roedd babis hefyd yn defnyddio'r teganau yma wrth dorri dannedd. Dyma pam caiff ei alw'n 'coed cnoi' hefyd.

## Wooden Stump Baby

A Wooden Stump Baby was a classic Tudor toy for girls. Many families were too poor to afford expensive toys; the stump baby could easily be made by hand.

Many girls would make clothes out of old scraps of cloth to dress their babies in. It was also given to babies as a comforter when teething, giving the stump baby its other name of 'champing trees'.



## Dillad y Dyn Tlawd

Byddai gwisg arferol ar gyfer dyn o Oes y Tuduriaid yn cynnwys siaced dynn o'r enw dwbled a phâr o hosanau (trowsus tynn sy'n gorffen ar bwys y penglin) a het.

## Poor Mans Clothing

A typical outfit for Tudor men would be a tight fitting jacket called a doublet, a pair of hose (tight fighting trousers to the knee) and a hat.



## Dillad y Fenyw Dlawd

Byddai menyw dlawd yn gwisgo smoc, ffedog a phenwisg (coif). Roedd y mwyafrif o fenywod dim ond yn gallu fforddio dillad trwchus wedi'u gwneud o ddeunydd garw oherwydd roedd rhaid gwisgo'r un smoc drwy gydol y flwyddyn. Roedd hi'n rhatach iddyn nhw gael ffedog newydd na smoc newydd.

## Poor Woman's Clothing

A poor woman would wear a smock, an apron and a coif (a hat). Most women could only afford thick clothes made of rough material as the same smock would have been worn all year round. It was cheaper for them to replace the apron rather than the smock.



## Gwisg y Brenin

Roedd ffasiwn yn cael ei bennu gan y Teulu Brenhinol a oedd o hyd yn gwisgo eu dillad gorau. Roedd y Brenin yn gwisgo crysau sidan a chlogau gyda brodwaith. Roedd dillad lliw llachar yn ddrud iawn; dyma oedd yn gwahaniaethu'r bobl gyfoethog a'r bobl tlawd yn y gymdeithas.

## Kings Clothing

Fashion was dictated by the Royal family who always dressed to impress. Kings wore silk shirts and cloaks with embroidery. Bright coloured clothes were very expensive, which distinguished the rich from the poor in society.



## Gwisg y Frenhines

Byddai'r Frenhines yn gwisgo dillad isaf, gan gynnwys pais (sgert) gyda chylchbais oddi tani i'w gwneud yn fwy. Ar ben y sgert byddai'n gwisgo gŵn gyda phenwisg. Roedd Elizabeth I wrth ei bodd yn gorchuddio'i ffrog â gemau; byddai hyn wedi bod yn drwm iawn.

## Queens Dress

The Queen would wear undergarments, including a kirtle (skirt) with a farthingale (hooped skirt) underneath to pad it out. On top she would wear a gown with a headdress . Queen Elizabeth I loved to cover her dress in jewels which, would have been very heavy to wear.

TAITH PYLLAU GLO CYMRU
PARC TREFTADAETH CWM RHONDDA
A WELSH COAL MINING EXPERIENCE
RHONDDA HERITAGE PARK



## Darnau Arian Harri VIII ac Elizabeth I

## Henry VIII and Elizabeth I Coins




Roedd darnau arian o Oes y Tuduriaid yn cynnwys llun o'r Brenin/Brenhines ar y wyneb a chroes ar y gwrthwyneb er mwyn symboleiddio Cristnogaeth yn ogystal ag arfbais y Brenin/Brenhines. Geiriau Lladin o'r Beibl yw'r geiriau o gwmpas ymyl y darn arian. Roedd hyn er mwyn dangos bod y Brenin/Brenhines wedi cael ei benodi/ei phenodi i deyrnasu gan Dduw.

Tudor coins had an image of the monarch on the obverse and on the reverse a cross to symbolise Christianity along with the coat of arms of the monarch. The words around the edge of the coins are Latin words from the bible. This was to show that the monarch was appointed by God to rule over the land.

### Gwerth Darnau Arian Oes y Tuduriaid | Tudor Coin Values

| Enw'r Darn Aur: Gold Coin Name: | Gwerth y darn mewn Sylltau Equivalent Value in Shillings | Gwerth y darn mewn Ceiniogau Equivalent Value in Pence |
|---|---|---|
| Sofran \| Sovereign | 30 | 360 |
| Punt \| Pound | 20 | 240 |
| Angel \| Angel | 10 | 120 |
| Coron \| Crown | 5 | 60 |
| Hanner Coron \| Half Crown | 2s 6d | 30 |

| Enw'r Darn Arian: Silver Coin Name: | Gwerth y darn mewn Sylltau Equivalent Value in Shillings | Gwerth y darn mewn Ceiniogau Equivalent Value in Pence |
|---|---|---|
| Syllt \| Shilling | 1 | 12 |
| Chwecheiniog \| Sixpence | 1/2 | 6 |
| Grôt \| Groat | 1/3 | 4 |
| Hanner Grôt \| Half Groat | 1/6 | 2 |
| Ceiniog \| Penny | 1/12 | 1 |
| Hanner Ceiniog \| Half Penny | 1/24 | 1/2 |
| Ffyrling \| Farthing | 1/48 | 1/4 |

### Cyflogau Oes y Tuduriaid | Tudor Wages

| Swydd Job | Cyflog blynyddol Annual Wage |
|---|---|
| Llafurwr Labourer | £5 -10 |
| Saer Coed Carpenter | £13 |
| Offeiriad Parson | £20 |
| Masnachwr Merchant | £100 |
| Gŵr Bonheddig Nobleman | £1,500 - 3,000 |

### Prisiau Bwyd yn Oes y Tuduriaid | Tudor Food Prices

| Prif nwyddau'r Tuduriaid: Staple Tudor items: | Pris Price |
|---|---|
| 24 owns o fara 24oz bread | 1 penny |
| 2/3 galwyn o gwrw 2/3 gallon of beer | 1 penny |
| 2 bwys o gig eidion neu gig dafad 2lbs beef or mutton | 2 pence |
| 1/2 pwys o fenyn 1/2lb butter | 1½ pence |
| 1 pwys o gaws 1lb cheese | 1½ pence |